*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 79(2)(d) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

# Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Caffaeliadau sy'n Ymwneud ag Anheddau Lluosog) (Cymru) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("DTTT 2017") er mwyn diwygio Atodlen 13 (rhyddhad ar gyfer caffaeliadau sy'n ymwneud ag anheddau lluosog) sy'n darparu rhyddhad rhag treth trafodiadau tir mewn perthynas â chaffaeliadau sy'n ymwneud ag anheddau lluosog.

Mae Rheoliad 3 yn mewnosod paragraff newydd 7A yn Atodlen 13 i DTTA 2017, sy'n ymwneud ag amgylchiadau pan nad yw anheddau sy'n is-annedd i annedd arall yn cyfrif fel anheddau ar wahân wrth ganfod nifer yr anheddau perthnasol at ddibenion rhyddhad ar gyfer caffaeliadau sy'n ymwneud ag anheddau lluosog.

Mae Rheoliad 4 yn cynnwys darpariaethau trosiannol sy'n darparu nad yw'r Rheoliadau yn effeithio ar drafodiadau tir y rhoddir effaith iddynt yn unol â chontract yr ymrwymir iddo neu a gyflawnir yn sylweddol cyn 7 Chwefror 2025, yn ddarostyngedig i amodau penodol.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 7 Chwefror 2025.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd

asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 79(2)(d) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Caffaeliadau sy'n Ymwneud ag Anheddau Lluosog) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | 7 Chwefror 2025 |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 30(6) a 78 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 79(2)(d) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.—**(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Caffaeliadau sy'n Ymwneud ag Anheddau Lluosog) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 7 Chwefror 2025.

---

(**1**) 2017 dccc 1.

**Dehongli**

**2.** Mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

**Addasu rhyddhad ar gyfer caffaeliadau sy'n ymwneud ag anheddau lluosog**

**3.** Yn Atodlen 13 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, ar ôl paragraff 7 mewnosoder—

*"Amgylchiadau pan na fo is-anheddau yn cyfrif fel anheddau ar wahân*

**7A.**—(1) Mae is-baragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â thrafodiad trethadwy—

(a) pan fo—

(i) y prynwr yn unigolyn, a

(ii) prif destun y trafodiad ar ffurf prif fuddiant mewn dwy annedd neu ragor ("yr anheddau a brynir"),

(b) pan fo un yn unig o'r anheddau a brynir yn annedd gymwys, ac

(c) nad yw paragraff 15 o Atodlen 5 yn gymwys iddo.

(2) Ond nid yw is-baragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â thrafodiad trethadwy—

(a) sydd o fewn is-baragraff (1), a

(b) y mae paragraff 18 o Atodlen 5 yn gymwys iddo (rhyng-drafodiad sy'n cael ei drin fel pe bai'n drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch).

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, mae'r buddiannau yn yr annedd gymwys a grybwyllir yn is-baragraff (1)(b) ac annedd a brynir (neu fwy nag un annedd a brynir) sy'n is-annedd iddi i'w trin fel pe baent yn fuddiannau mewn annedd unigol.

(4) At ddibenion y paragraff hwn, mae annedd a brynir ("annedd A") yn is-annedd i annedd gymwys ("annedd B") pe bai annedd A yn is-annedd i annedd B at ddibenion Atodlen 5 (gweler paragraff 14 o'r Atodlen honno).

(5) Yn y paragraff hwn, ystyr "annedd gymwys" yw annedd sy'n annedd gymwys at ddibenion Rhan 3 o Atodlen 5 (gweler paragraff 13 o'r Atodlen honno)."

**Darpariaethau trosiannol**

**4.**—(1) Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â thrafodiad tir sy'n cael effaith ar 7 Chwefror 2025 neu ar ôl hynny.

(2) Ond nid yw'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â thrafodiad tir os—

(a) y rhoddir effaith i'r trafodiad yn unol â chontract yr ymrwymir iddo ac a gyflawnir yn sylweddol cyn 7 Chwefror 2025, neu

(b) y rhoddir effaith i'r trafodiad yn unol â chontract yr ymrwymir iddo cyn 7 Chwefror 2025 ac nid yw wedi ei eithrio gan baragraff (3).

(3) Mae trafodiad tir wedi ei eithrio—

(a) os ceir unrhyw amrywiad i'r contract, neu os aseinir hawliau o dan y contract, ar neu ar ôl 7 Chwefror 2025,

(b) os rhoddir effaith i'r trafodiad o ganlyniad i arfer unrhyw opsiwn, hawl rhagbrynu neu hawl debyg ar neu ar ôl 7 Chwefror 2025, neu

(c) pan geir, ar neu ar ôl 7 Chwefror 2025, aseiniad, is-werthiant neu drafodiad arall yn ymwneud â'r cyfan neu ran o destun y contract, y caiff person heblaw'r prynwr o dan y contract yr hawl i alw am drosglwyddiad o ganlyniad iddo.

(4) Os yw—

(a) trafodiad tir ôl-gychwyn yn gysylltiol o ran trafodiad tir cyn-gychwyn, a

(b) y trafodiad tir cyn-gychwyn yn drafodiad perthnasol at ddibenion paragraff 3 o Atodlen 13 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017,

nid yw'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â'r trafodiad tir ôl-gychwyn.

(5) Ym mharagraff (4)—

(a) ystyr "trafodiad tir cyn-gychwyn" yw trafodiad tir sy'n cael effaith cyn 7 Chwefror 2025 neu sy'n bodloni'r amodau ym mharagraff (2)(a) neu (2)(b);

(b) ystyr "trafodiad tir ôl-gychwyn" yw pob trafodiad tir arall.

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad